



Cynhadledd Datgarboneiddio

19 Hydref 2021

Noddir gan

WPA

CYNGHRAIR
CAFFAEL
CYMREIG

WELSH
PROCUREMENT
ALLIANCE

Dysgu. Cysylltu. Tyfu.



Tuesday 19th October

Dydd Mawrth 19 Hydref

Mae newid hinsawdd yn flaenoriaeth sy'n cynyddu drwy'r amser. Datganodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 fod argyfwng hinsawdd drwy ddweud bod 'newid hinsawdd yn bygwth iechyd, economi, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru'. Flwyddyn yn ddiweddarach, cafodd cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd i osod targed sero-net ar gyfer Cymru erbyn 2050 ei osod yn y gyfraith gan Lywodraeth Cymru.

Eleni sefydlwyd Gweinyddiaeth Newid Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, cyhoeddodd yr IPCC adroddiad llwm am newid hinsawdd ac ym mis Tachwedd caiff 26ain Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) ei chynnal yn y Deyrnas Unedig.

Mae cartrefi yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir a 15% o'r holl allyriadau ar yr ochr alw, gan roi rhan allweddol i gartrefi mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd. Argymhellodd adroddiad Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell fod y sector cymdeithasol yn dechrau ar raglen 10 mlynedd i ôl-osod cartrefi i EPC A a bydd rheoliadau adeiladau yn ei gwneud yn ofynnol fod cartrefi newydd yn rhai carbon isel.

Bydd CHC yn cynnal ei Chynhadledd Datgarboneiddio ym mis Hydref fydd yn mynd ati i ddeall y rhesymau dros ddatgarboneiddio, sut y gellir cefnogi'r economi sylfaenol, sut a pham y dylid ymgysylltu gyda thenantiaid, a sut y gall arloesi gefnogi'r pontio i gymdeithas carbon isel.

Dangosodd y pandemig coronafeirws na fu ein cartrefi erioed yn bwysicach. Dylai'r cartrefi hynny fod o ansawdd da, fforddiadwy ac effeithiol o ran ynni, lle mae tenantiaid yn teimlo'n ddiogel a chynnes.

Mae datgarboneiddio yn gyfle i hybu'r economi lleol ar ôl Covid drwy greu swyddi, datblygu rhaglenni hyfforddiant a chefnogi cadwyni cyflenwi.

Mae cymdeithasau tai yn uchelgeisiol i ddatgarboneiddio. I ddatgarboneiddio nid dim ond cartrefi ond busnesau, gwasanaethau a chymunedau hefyd. Bydd y gynhadledd hon yn ennyn diddordeb, yn cefnogi a chymhell y rhai sy'n mynychu i gynyddu graddfa ac ymgymryd â datgarboneiddio yn y ffordd fwyaf effeithlon, gynaliadwy.

Noddir y Gynhadledd drwy garedigrwydd Cynghrair Caffael Cymru.

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



Dydd Mawrth 19 Hydref

9.00am	Cofrestru, rhwydweithio a gweld yr arddangosfa
9.30am	Croeso a Gosod y Llwyfan <i>Cadeirydd y Gynhadledd Jane Davidson @JaneBryngwyn</i>
9.45am	Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd Luke Murphy IPPR @LukeSMurphy Luke yw pennaeth Comisiwn Cyfiawnder Cymdeithasol yr IPPR ac mae'n arwain y tîm Ynni, Hinsawdd, Tai a Seilwaith. Cyn ymuno â'r IPPR yn 2016, bu Luke yn gweithio yn y senedd, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mae Luke wedi gweithio i'r Blaid Lafur fel cynghorydd polisi a gwleidyddol ar gyfer ysgrifennydd gwladol cysgodol a nifer o weinidogion tai cysgodol gan arwain eu gwaith ar dai, gan hefyd weithio ar lywodraeth leol a datganoli. Mae wedi gweithio ar brosiectau polisi ac eiriolaeth ar gyfer y Sefydliad Cyflog Byw a chymdeithas tai flaenllaw. Mae gan Luke brofiad sylweddol mewn cyfathrebu ac ymgychu. Bydd ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn golygu y bydd angen newidiadau fydd yn effeithio ar fywydau pob dydd pobl. Daw llawer o risgiau yn sgil y pontio i economi gwyrdd ond hefyd nifer enfawr o gyfleoedd. Yn y sesiwn yma, bydd Luke yn gosod y llwyfan, rhoi ei safbwynt ar effeithiau real iawn yr argyfwng hinsawdd a dangos sut mae tai yn rhan o fudiad byd-eang enfawr sy'n cyfrannu at y datrysiad.
10.30pm	Cyfres o weithdai

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)[Email Events Team](#)



	Monitro Perfformiad Ynni Domestig Dr Jo Patterson Ysgol Bensaerniaeth Cymru @JoPatterson74 Bydd Dr Patterson yn siarad am wybodaeth o'r ymchwil a gynhaliodd y tîm Amgylchedd Adeiledig Carbon Isel gydag amrywiaeth o awdurdodau lleol a sefydliadau tai cymdeithasol ledled Cymru i weithredu prosiectau ôl-osod tŷ cyfan, system ynni gyfan. Mae'r gwaith wedi golygu gweithio agos gyda phreswylwyr, staff awdurdodau lleol a thai cymdeithasol a chadwyni cyflenwi i gyflwyno cartrefi carbon isel, ynni isel ac ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol tra'n newid arferion ar gyfer gwelliannau i gartrefi presennol a chartrefi newydd yn y dyfodol.
	Ynni fel Gwasanaeth Edmund Hunt Energy Systems Catapult @EnergySysCat Bydd y sesiwn yma'n edrych pa rôl y gallai ynni fel gwasanaeth ei chwarae wrth gefnogi cymdeithasau tai gydag uchelgais datgarboneiddio. Mae Gwres fel Gwasanaeth yn fodel newydd ar gyfer sut mae busnesau yn gwerthu gwresogi. Mae defnyddwyr sy'n prynu Gwres fel Gwasanaeth yn dewis faint i'w wario ar y profiad a ddymunant – teimlo'n gynnes a chysurus pryd a lle maent ei eisiau yn eu cartrefi – yn hytrach na thalu am oriau kilowatt o ynni. Unwaith mae darparrydd gwasanaeth yn deall defnyddiwr, gall y darparrydd gwasanaeth eu helpu i ddewis y system carbon isel gorau ar gyfer eu sefyllfa a'u helpu i baratoi eu cartref, fel ei bod yn rhwydd ei osod pan maent eisiau newid eu system bresennol. Bydd Ed o Energy Systems Catapult yn ein llywio drwy'r hyn yw ynni fel gwasanaeth, sut y mae'n gweithio, sut y gall fod o fudd i denantiaid, a sut y gall gyflwyno cyfle i landlordiaid cymdeithasol.
	Ymgysylltu â Thenantiaid Laura Holt Canolfan Adeiladu Actif Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar: • Manteision byw carbon isel ar gyfer preswylwyr • Arfer gorau ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr sero carbon • Effaith gymdeithasol ôl-osod



	Lawr i Sero – datgarboneiddio drwy dynnu CO2 i lawr seiliedig ar y tir Victoria Slade, Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf a Claire Snook, Samkat @CynonTafHousing In late 2020 Cynon Taf Community Housing group board committed time and resources to investigating a carbon reduction strategy including a land-based draw down of CO₂ plan. This has developed to: Decarbonisation through land-based draw down of CO₂ – in simple terms, using land to reduce the carbon in the atmosphere. This project is called Down to Zero. Claire and Victoria will share with delegates the progress of the project and the journey they have been on and their learnings so far
11.30am	Cyfle am baned a sgwrs
11.45am	Main Session: Lee Waters AS – Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd @Amanwy (gwahoddwyd) Mae'r weinyddiaeth newid hinsawdd newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys tai. Yn y sesiwn yma bydd Lee Waters AS yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer newid hinsawdd a sut mae cymdeithasau tai yn chwarae rhan wrth gyrraedd targedau sero-net uchelgeisiol.
12.15pm	Cinio a Rhwydweithio
1.00pm	Cyfres o weithdai

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



	Gweithgynhyrchu Oddi ar y Safle: Y da, y gwael a'r salw CastleOak @CastleOak Byddai hon yn sesiwn onest a rhyngweithiol wedi'i chywasgu yn ddarnau bach o gyngor ar gyfer cymdeithasau tai sy'n ystyried mentro i dai cynaliadwy. Byddwn yn edrych ar rannu cyngor diffuant: • Pryd mae hi'n iawn i ddefnyddio gweithgynhyrchu oddi ar y safle a phryd y gallai opsiynau eraill fod yn fwy addas? Pa fathau eraill o weithgynhyrchu cynaliadwy sy'n bodoli? • Beth yw'r gwahaniaeth mewn profiad o safbwynt cwsmer? • Beth y dylid cadw golwg amdano? Beth all fynd o'i le yn ystod ac ar ôl adeiladu? • Beth yw'r gwahaniaeth cost? Gydol oes ac ymlaen llaw? Beth fedrir ei wneud i leihau costau yn ystod hynny? • A oes unrhyw beth arall y dylai cwmni sy'n camu i hwn am y tro cyntaf ei wybod cyn mynd lawr llwybr oddi ar y safle?
	Ynni Cymunedol Dewi Llwyd Evans Grŵp Cynefin @Grwp_Cynefin Yn y sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn clywed sut y gall cymdeithasau tai gymryd rhan mewn ynni cymunedol a chlywed o enghreifftiau o waith Grŵp Cynefin gyda YnNi teg ac Ynni Ogwen.
	Cyllido datgarboneiddio Yr Athro Nick Robins Sefydliad Ymchwil Grantham ar Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd @GRI_LSE Yn y sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn clywed heriau a chyfleoedd cyllido sero net, sut olwg a allai fod ar gyllid cyhoeddus a phreifat, a sut y gallwn sicrhau buddsoddwyr a bancwyr adnabod yr angen i gefnogi datgarboneiddio/ gweithredu hinsawdd
2.00pm	Cyfle am baned a sgwrs



2.15pm	Ymagwedd Llywodraeth yr Alban at ddatgarboneiddio Ragne Low, Cynllunio Gwres yn Llywodraeth yr Alban @RagneLow Yn y sesiwn yma byddwn yn clywed am ymagwedd Llywodraeth yr Alban at ddatgarboneiddio a'r gefnogaeth y maent yn ei rhoi i gymdeithasau tai, yn ogystal â'u rôl yn COP26.
2.45pm	Cyfle am baned a sgwrs
3.00pm	Dylunio Cynaliadwy Yr Athro Yewande Akinola MBE, Peiriannydd Dylunio, Arloeswr a Hyrwyddwr Twf Glân @YeWanDae (gwahoddwyd) Mae'r Athro Yewande Akinola MBE yn beiriannydd siartredig, arloeswraig, breuddwydwraig a siaradwraig angerddol am rôl arloesedd, creadigrwydd a pheirianeg yn ein byd heddiw. Mae Yewande yn llysgennad dros dwf glân a seilwaith yn Innovate UK. Yn ein sesiwn olaf heddiw, bydd Yewande yn hysbysu ac ysbrydoli cynrychiolwyr drwy siarad am ei gwaith ar gynaliadwyedd, arloesedd ac amrywiaeth, a sut y gall ac y dylai'r rhain gael eu rhoi yn y sector tai i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
3.45pm	Bwrw golwg yn ôl a chau'r Gynhadledd

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)